*Statws* *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 No. 2722

# Gorchymyn Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (Cychwyn Rhif 4 a Darpariaethau Canlyniadol a Throsiannol a Darpariaethau Arbed) (Cymru) 2005

**Y diwrnod penodedig**

**2.**—(1) Y diwrnod penodedig i ddarpariaethau canlynol y Ddeddf ddod i rym, sef—

(a) adran 61 (arolwg);

(b) adran 64 (archwiliad annibynnol);

(c) adran 65 (ymyrraeth gan y Cynulliad);

(ch) adran 66 (tynnu cynllun datblygu lleol yn ôl);

(d) adran 67 (mabwysiadu cynllun datblygu lleol);

(dd) adran 68 (dirymu cynllun datblygu lleol);

(e) adran 69 (adolygu cynllun datblygu lleol);

(f) adran 70 (diwygio cynllun datblygu lleol);

(ff) adran 71 (pŵer diofyn y Cynulliad);

(g) adran 74 (corfforaethau datblygu trefol); ac

(ng) adran 76 (yr adroddiad monitro blynyddol), i'r graddau nad yw eisoes mewn grym,

yw, at ddiben gwneud rheoliadau, 5 Hydref 2005, ac ymmhob achos arall, 15 Hydref 2005.

(2) Y diwrnod penodedig i erthyglau 3 i 7 o'r Gorchymyn hwn ddod i rym yw 15 Hydref 2005.